Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Plas y Ffynnon
Cambrian Way
Aberhonddu
LD3 7HP

1 Cwr y Ddinas / 1 Capital Quarter
Caerdydd / Cardiff
CF10 4BZ
Ffôn / Tel: 029 2032 0500
Ffacs / Fax: 029 2032 0600
Ffôn testun / Textphone: 029 2032 0660
post@archwilio.cymru / info@audit.wales
www.archwilio.cymru / www.audit.wales

**Dyddiad cyhoeddi:** Chwefror 2025

Annwyl Catherine ac Aled,

# Cynnydd o ran cyflawni Argymhellion Statudol yr Archwilydd Cyffredinol

Fel y gwyddoch, yn ei adroddiad ym mis Chwefror 2021, gwnaeth yr Archwilydd Cyffredinol argymhellion statudol i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (yr Awdurdod) yn dilyn ei adolygiad o'r rhaglen newid. Ers hynny, mae wedi nodi y byddai'n dilyn y cynnydd o ran cyflawni'r argymhellion hyn, a gwnaethom hynny ym mis Mawrth 2022 ac yn fwyaf diweddar ym mis Mai 2023.

Mae'r llythyr hwn yn nodi ein hadolygiad diweddaraf, a gwblhawyd trwy gyfweliadau gyda chi ac uwch-swyddogion, yn ogystal ag adolygu cofnodion yr Awdurdod a dogfennau allweddol eraill. Gwnaethom ganolbwyntio ar y tri mater craidd a nodwyd gennym yn ein llythyr diwethaf:

- cynnydd o ran cyflawni camau er mwyn ymateb i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol;
- gweithio i gryfhau dulliau llywodraethu a'r broses o wneud penderfyniadau;
- y capasiti a'r cadernid sefydliadol er mwyn cyflawni gwelliant.

## Canfuom fod diffyg capasiti a chadernid sefydliadol yn peri risg sylweddol i gynaliadwyedd yr Awdurdod yn y dyfodol a'i allu i gyflawni argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol

Ar gyfer y tri mater craidd a nodir uchod, ein casgliadau yw:

- bod diffyg capasiti sefydliadol a'i sefyllfa ariannol yn cyfyngu ar yr Awdurdod, er ei fod wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran cyflawni ei gamau blaenoriaeth.
- er bod y berthynas rhwng aelodau a swyddogion wedi gwella, nid yw rhai aelodau yn ymgysylltu'n llawn o hyd wrth graffu a gwneud penderfyniadau. Mae diffyg capasiti a chadernid sefydliadol yn peri risg sylweddol i gynaliadwyedd yr Awdurdod yn y dyfodol

Nodwn isod y dystiolaeth sydd wrth wraidd y casgliadau hyn.

**Mae diffyg capasiti sefydliadol a'i sefyllfa ariannol yn cyfyngu ar yr Awdurdod, er ei fod wedi gwneud cynnydd o ran cyflawni ei gamau blaenoriaeth**

Canfuom y bu rhywfaint o gynnydd ers ein hadolygiad diwethaf. Er enghraifft, mae'r Awdurdod hefyd wedi llunio Strategaeth Arallgyfeirio Incwm er mwyn gwella ei gyllid yn yr hirdymor. Ers ein gwaith maes, mae'r Awdurdod wedi cymeradwyo Cynllun Dirprwyo diwygiedig. Cam gweithredu â blaenoriaeth a nodwyd yn flaenorol yn ystod ein hadolygiad oedd hwn. Mae dogfennau allweddol eraill, megis fframwaith risg a fframwaith llywodraethu a sicrwydd, wedi eu datblygu ers ein hadolygiad diwethaf hefyd.

Fodd bynnag, er gwaethaf y cynnydd hwn, rydym yn pryderu y gallai sefyllfa ariannol bresennol yr Awdurdod ei gyfyngu i'r pwynt lle nad yw'n gallu gweithredu ei gynlluniau presennol a gwneud yr holl welliannau sydd eu hangen i sicrhau ei gynaliadwyedd yn y dyfodol.

Mae gan yr Awdurdod lefelau llawer is o gronfeydd wrth gefn o gymharu â'i gostau gweithredu na'r ddau Awdurdod Parc Cenedlaethol arall yng Nghymru. Ar gyfer Bannau Brycheiniog yn 2023-24, cymhareb y cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio na chyfyngir gan y gyfraith i gost net ei wasanaethau oedd 58%[1]. Mae gan y ddau Awdurdod Parc Cenedlaethol arall yng Nghymru gymarebau dros 100%. Mae hyn yn golygu bod gan yr Awdurdod sefyllfa ariannol llawer gwannach i adeiladu arni.

Mae nifer y partneriaid y mae angen i'r Awdurdod weithio gyda nhw, oherwydd ei ddaearyddiaeth yn rhannol, yn ychwanegu at yr her hon ac yn gofyn am fuddsoddiad

---

[1] Mae'r diffiniad o gronfeydd wrth gefn a dull a ddefnyddir yn gyson â'n hofferyn data cynaliadwyedd ariannol.

mewn capasiti i weithio mewn partneriaeth yn ystyrlon. Yr Awdurdod sydd â'r nifer mwyaf o bartneriaid statudol ymhlith Awdurdodau Parc Cenedlaethol yng Nghymru. Mae angen ymgysylltiad gan y naw prif gyngor o fewn ffiniau'r parc, yn ogystal â nifer o Gyd-bwyllgorau Corfforedig a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae hyn yn gofyn am ymrwymiad amser sylweddol gan swyddogion ac, yn ymarferol, mae'n golygu bod alinio amcanion a gweithgareddau yn heriol. Mae hyn yn cynyddu'r risg o ddyblygu ac o beidio â nodi a chymryd cyfleoedd i sicrhau manteision lluosog. Mae hefyd yn ychwanegu at y cyfyngiadau o ran capasiti y mae'r Awdurdod yn eu profi ar hyn o bryd.

Mae capasiti a chadernid sefydliadol hefyd yn cyfyngu'n sylweddol ar allu'r Awdurdod i weithredu newid. Mae bylchau sylweddol o ran capasiti ar sawl lefel swyddogion. Mae hyn wedi golygu bod uwch-arweinwyr wedi cyflawni dyletswyddau islaw eu graddau, sy'n aneffeithlon ac yn cyfyngu ymhellach ar eu capasiti i gyflawni eu rolau bwriadedig. Mae hefyd yn cyfyngu ar allu swyddogion i gydbwyso dymuniad yr Awdurdod i gyflawni ei gynllun rheoli ac amcanion polisi Llywodraeth Cymru, a mynd i'r afael hefyd â'i faterion llywodraethu, ariannol a chapasiti ar yr un pryd. Mae'r ffaith bod rhai swyddi'n cael eu gadael heb eu llenwi (e.e. swyddogion Iechyd a Diogelwch a chwynion) hefyd yn cynyddu'r risg o faterion cyfreithiol i'r Awdurdod.

Clywsom hefyd yn ystod ein gwaith maes fod diffyg capasiti sefydliadol wedi rhoi pwysau sylweddol ar swyddogion, gan effeithio ar eu morâl a'u llesiant, ac mae hyn, yn ei dro, wedi effeithio ar gadernid sefydliadol. Mae posibilrwydd y bydd hyn yn gwaethygu'r risgiau sy'n gysylltiedig â diffyg capasiti sefydliadol, ac mae wedi lleihau gallu'r Awdurdod i weithredu ei gynllun rheoli. Mae cyflawni llawer o swyddogaethau allweddol yn dibynnu ar unigolion a phan fyddant yn gadael yr Awdurdod, efallai na fydd y swyddogaethau hynny'n cael eu llenwi oherwydd anawsterau cadw a hyfywedd swyddi yng nghyd-destun ariannol yr Awdurdod. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod wedi penodi Pennaeth Cyllid ac Adnoddau ac wedi creu rolau eraill i ddechrau ehangu'r capasiti. Mae hefyd wedi cymryd camau i wella llesiant y staff.

Mae'r Awdurdod o'r farn bod ei sefyllfa ariannol yn cyfyngu ar y graddau y gall fuddsoddi i leddfu terfynau capasiti. Fodd bynnag, nid yw'r Awdurdod wedi datrys sut y bydd yn mynd i'r afael â'i fylchau o ran capasiti, ac, o ganlyniad, ei gadernid. Codwyd pryder am gynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod dro ar ôl tro yn ystod ein gwaith maes. Mae diffyg eglurder hefyd am yr amserlen ar gyfer gweithredu'r camau blaenoriaeth sy'n weddill er mwyn ymateb i'n hargymhellion, er bod pedair blynedd wedi mynd heibio ers inni gyflwyno ein hargymhellion.

O ganlyniad, mae risgiau sylweddol na all yr Awdurdod gyflawni ei gynlluniau strategol fel y nodir ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys ei Gynllun Rheoli Parc Cenedlaethol a'i Gynllun Busnes blynyddol. Mae uwch-swyddogion yn cydnabod y

gall fod angen lleihau cwmpas Cynllun Busnes yr Awdurdod i'w wneud yn fwy realistig. Maent hefyd yn ystyried a yw pob un o'r 12 o flaenoriaethau yn y cynllun busnes yn realistig o ystyried y cyfyngiadau o ran capasiti.

## Er bod y berthynas rhwng aelodau a swyddogion wedi gwella, nid yw rhai aelodau yn ymgysylltu'n llawn o hyd wrth graffu a gwneud penderfyniadau

Mae'r berthynas rhwng aelodau a swyddogion yr Awdurdod yn parhau i fod yn barchus ac yn adeiladol ar y cyfan. Yn gyffredinol, mae'r aelodau'n gefnogol i gyfeiriad teithio'r Awdurdod ac mae rhai aelodau'n ymgysylltu'n fawr â gwaith yr Awdurdod. Er enghraifft, mae rhai'n cyfrannu at weithgorau arbenigol ar bynciau megis datblygu cangen elusennol ac adeiladau yn y dyfodol.

Fodd bynnag, nid yw holl aelodau'r Awdurdod yn ymgysylltu'n llawn yn eu rôl yn yr Awdurdod. Ar y cyfan, 81.7% yw presenoldeb aelodau yng nghyfarfodydd llawn yr Awdurdod, ond mae hyn yn llawer is ymhlith aelodau a benodwyd gan gynghorau (73.8%) o'u cymharu ag aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru (97.1%). Clywsom hefyd yn ystod ein gwaith maes fod rhai aelodau etholedig nad ydynt yn ymgysylltu'n effeithiol â'r Awdurdod a'i waith. Mae hyn yn cyfyngu ar y graddau y gallant gyfrannu'n effeithiol at y broses o wneud penderfyniadau a chraffu, ac mae risg y bydd effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu yn cael ei wanhau. Mae hyn yn cysylltu â'r canfyddiadau a'r argymhellion yn ein hadroddiad diweddar Llywodraethu Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, y byddwn hefyd yn ei ddilyn maes o law.

## Y camau nesaf

I gloi, credwn na wnaed cynnydd digonol i roi sicrwydd y bydd yr Awdurdod yn mynd i'r afael ag argymhellion statudol yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'r diffyg cynnydd a'r pryderon a godwyd yn peri risg sylweddol nad oes gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth iddo ddefnyddio adnoddau. Rydym wedi penderfynu peidio â gwneud argymhellion ychwanegol ar hyn o bryd, ond byddem yn disgwyl gweld camau ychwanegol yn cael eu cymryd fel mater o frys i fynd i'r afael ag argymhellion statudol yr Archwilydd Cyffredinol.

Yn rhannol oherwydd ein canfyddiadau o'r gwaith hwn, rydym wedi cynnwys adolygiad o gynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod yn ein rhaglen archwilio ar gyfer y flwyddyn ariannol presennol i roi sicrwydd ynghylch trefniadau'r Awdurdod. Byddwn yn gweithio gyda swyddogion i drefnu ein gwaith maes yn fuan. Ar ôl cwblhau'r gwaith hwn, efallai y byddwn yn gwneud argymhellion eraill neu'n ystyried ymhellach ein dull o ddilyn cynnydd yr Awdurdod. Rydym wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Weinidogion Cymru i'w gwneud yn ymwybodol o'n canfyddiadau.

Yn gywir,

Gary Emery

Cyfarwyddwr Llywodraeth Leol